

CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	1 Rhagfyr 2022
Teitl yr Eitem:	Cynllun Deisebau
Aelod Cabinet:	Cyng. Menna Jones
Swyddog Cyswllt:	Iwan G Evans, Swyddog Monitro a Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor Llawn i fabwysiadu y Cynllun Deisebau.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywdoraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi'r angen i Awdurdodau Lleol fabwysiadu Cynllun Deisebau. Gofynnir i'r Cabinet ei gymeradwyo a'i argymhell i'r Cyngor Llawn.

3. CYFLWYNIAD

Gosodir gofyn statudol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Deisebau sydd yn yn nodi sut fydd yn Cyngor yn ymdrin a deisebau.

Rhaid i'r Cynllun nodi:

- Sut i gyflwyno desieb
- Sut ac erbyn pryd y cydnabyddir derbyn y ddeiseb
- Camau y egellir eu cymeryd mewn ymaten
- Amgylchiadau pan allai'r CYngro beidio a chymryd unrhyw gamau pellach mewn ymateb
- Sut ac erbyn pryd bydd y Cyngor yn sicrhau fod ymateb i'r ddeiseb ar gael.

Mae deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd gyda'r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid.

Mae'r Cynllun hwn yn gosod y camau fydd y Cyngor ei gymryd pan yn derbyn deiseb gan y unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau. Mae'n gosod trefn mewn lle sydd yn cyfarch y gofyn yn y ddeddf, amlygu sut i fynd ati i gyflwyno deiseb a'r hyn y gellir ei ddsigwyl mewn ymateb.

Amlinellir beth yw'r gofynion o ran cyflwyno deiseb ddilys gan amlygu pwy all arwyddo y ddeiseb a sut y bydd y Cyngor yn cadarnhau deiseb ddilys. Bydd deisebau dilys

fydd yn cael eu derbyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor gan gynnwys y camu gweithredu fydd i ddilyn.

Amlygir fod gofynnion cyfreithiol a statudol yn o gylch ymgynghori neu gyfnodau ymateb statudol yn weithredol mewn ambell faes penodol, megis Ail Strwythuro Ysgolion a'r maes Cynllunio a pwysleisir na fydd deiseb yn cael ei derbyn y tu allan i'r trefniadau statudol hynny.

4. DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig. Gan fod Cynllun Deisebau yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae'r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais "socio economaidd." Mae asesiad ardrawiad atoddedig yn cadarnhau nad oes ardrawiadau penodol fyddai yn cefnogi gwyro oddi wrth yr argymhelliad.

5. DEDDF LLESIANT CENELDAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r deddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Bu i'r Cynllun hwn gael ei drafod gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar y 15fed o Dachwedd, a gwnaethpwyd man addasiadau i'r Cynllun yn dilyn derbyn eu sylwadau.

Bu i'r Cabinet benderfynu i argymell i'r Cyngor Llawn i fabwysiadu y Cynllun Deisebau hwn yn ei gyfarfod ar y 22ain o Dachwedd.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol:

Swyddog Monitro:

Mae'r argymhelliad yn gynnyrch gwaith Tîm Prosiect yr wyf yn aelod ohono. Rwy'n fodlon â phriodoldeb yr argymhellion ac yn cadarnhau'r cyd-destun Cyfreithiol.

Pennaeth Adran Gyllid:

Mae cyflwyno Cynllun Deiseb yn un o'r gofynion newydd sydd wedi ei roi ar y Cyngor gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rwyf yn fodlon nad oes ymrwymiad ariannol yn deillio'n uniongyrchol o'r penderfyniad a geisir a nid oes gennyf wrthwynebiad iddo

Atodiad 1 - Cynllun Deisebau

Atodiad 2 – Aseiad Cydraddoldeb